# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 6ed 2025 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Dewi Pritchard, Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bethan Thomas, Gwenda Evans a Rita Jones.

Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod gan y cadeirydd.

<u>ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.</u>
Etholwyd Alwyn Jones yn gadeirydd a chytunwyd i ofyn i Gwenda Evans fod yn is-gadeirydd.

<u>iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Cwmni Pum Plwy Penllyn: Eifion Davies a Rita Jones.
Pwyllgor Cantref: Eilir Rowlands.
Cyfarfodydd Lleol Yr Heddlu: Alwyn Jones.

<u>iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.</u>
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol roedd y Clerc wedi ei baratoi.

<u>v) Cyfrifon 2024-25.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Eglurodd y Clerc fod trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

<u>vii) Adolygu Rhestr o ffioedd y mynwentydd</u>.
Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i godi'r ffioedd o fis Mehefin ymlaen.

<u>viii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2025-26.</u>
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

<u>ix) Adolygu Asedau.</u>
Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cytunodd y cynghorwyr i archwilio'r asedau ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf.

<u>x) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.</u>
Cytunwyd i fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol newydd a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru. Adolygwyd y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Mewnol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad:……………………..